

## **ATODIAD 1**

### **Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2017-18**

#### **1. Crynodeb Gweithredol**

- 1.1 Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar 30 Medi 2016 ac mae angen i'r Cyngor gydymffurfio â 171 Safon. Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg yn parhau ac yn datblygu gwaith y Cynllun Iaith Gymraeg ymhellach gan sicrhau bod y Cyngor yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- 1.2 Croesawodd y Cyngor y gwaith o gyflwyno'r Safonau a'r cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r hawliau a gynnigiant i'r cyhoedd ac i'n gweithwyr. Rydym yn falch o'n hetifeddiaeth Gymreig, o'n diwylliant ac o'r Gymraeg. Cred y Cyngor fod parchu a diwallu anghenion a dewisiadau iaith ei gwsmeriaid yn ganolog i ofal cwsmeriaid da ac effeithiol. Darparwn wasanaethau i'r bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau lle mae troi at wasanaethau yn iaith gyntaf yr unigolyn yn arbennig o bwysig.
- 1.3 Rydym yn gwneud cynnydd da wrth roi'r Safonau ar waith ond yn cydnabod bod heriau'n parhau. Rydym wedi cryfhau'r dolenni rhwng y Gymraeg a Chynllun y Cyngor ac yn parhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-frydio ar hyd ein holl flaenoriaethau a pholisïau. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi un o'r nodau lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" sy'n cefnogi'n nod o barhau i wella sut cyflawnwn wasanaethau'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.

#### **2. Cyflwyniad**

- 2.1 Saif y Gymraeg ym mhortffolio'r Aelod Arweiniol ar gyfer Cymunedau, Partneriaethau, Amddiffyn y Cyhoedd a Diogelwch Cymunedol a saif cyfrifoldeb y gyfarwyddiaeth gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Pobl (Cwsmeriaid ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid). Bydd materion polisi sy'n berthnasol i'r Gymraeg yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd Gwaith. Byddai unrhyw newidiadau sylfaenol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn.
- 2.2 Saif y cyfrifoldebau gweithredol am weithredu'r Safonau gyda'r adran Gorfforaethol a Gwasanaethau Cwsmeriaid. Mae'r Arweinydd Digidol, Brand a Chyfathrebu'n cynnal y trosolwg strategol, gyda Chydlynnydd y Gymraeg yn gyfrifol o ddydd i ddydd am hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol ac am gyflawni targedau a champau yn strategaeth hyrwyddo 5 mlynedd y Gymraeg y Cyngor.
- 2.3 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes y cyhoedd ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.
- 2.4 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin fel y gosodwyd yn Safonau 158, 164 ac 170 er mwyn adrodd ar gynydd yn erbyn cydymffurfiaeth â'r Safonau yn y meysydd canlynol – Cyflwyno

Gwasanaethau, Gweithredol a Chreu Polisiâu. [Mae rhestr lawn o'r Safonau y mae angen i'r Cyngor gydymffurfio â nhw ar gael fan hyn](#). Byddwn hefyd yn adrodd yn flynyddol i Fwrdd Gwaith y Cyngor ar ein perfformiad mewn perthynas â'r Safonau.

2.5 Canolbwyntia'r adroddiad hwn ar y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

### **3. Cydymffurfiaeth â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

3.1 Sicrhau bod yr holl weithwyr yn ymwybodol o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau rydym wedi bod yn eu dosbarthu er gwybodaeth i reolwyr a staff yn gyson. Ar y cychwyn, ymddangosodd negeseuon ymroddedig ar amryw agweddau'r Safonau hyn mewn cyfathrebiadau mewnol a thrwy'r flwyddyn, rydym wedi parhau i wneud staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel mater o drefn. Gofynnir i bob gweithiwr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau ac y'u gwneir yn ymwybodol o ganlyniadau diffyg cydymffurfiaeth ers iddynt gael eu cyflwyno yn 2016.

3.2 Dengys posterï 'laith Gwaith' ym mhob ardal dderbynfa sy'n cael eu gweithredu gan staff dwyieithog. Mae gweithwyr sy'n medru'r Gymraeg a dysgwyr yn gwisgo llinynnau gwddf/bathodynnau 'laith Gwaith'. Yn ogystal, mae posterï sy'n rhoi manylion cyfrifoldebau'r gweithwyr wedi'u creu a'u lleoli mewn gorsafoedd llungopïo.

3.3 Arfer gweithio'r Cyngor mewn perthynas â'r wefan, porth fy nghyfrif, yr e-siop, cyfrifon y cyfryngau cymdeithasol a pheiriannau hunanwasanaeth yw ymdrechu i sicrhau bod popeth yn ddwyieithog ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Mae polisi cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn cynnwys gofyniad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

3.4 Gofynnir i aelodau'r cyhoedd sy'n gwneud cais am gyrsiau addysg a redir gan y Cyngor am eu dewis iaith [Cymraeg neu Saesneg] er mwyn asesu'r angen iddynt gael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.5 Mae Gweithdrefn Gwyno ar waith i ddelio â phob cwyn, sy'n cynnwys y rhai am y Gymraeg a diffyg cydymffurfiaeth â'r Safonau. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am gwynion yn rhan 6.

3.6 Mae grŵp cydlynu swyddogion Cymraeg yr adran yn gweithredu o fewn y Cyngor. Nod y grŵp yw hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y Cyngor, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan weithwyr, rhannu arfer da mewn meysydd gwasanaeth a chyfrannu at fentrau sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

### **4. Cydymffurfiaeth â'r Safonau Creu Polisiâu**

4.1 Mae pecyn cymorth asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i adolygu a'i gryfhau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys adran ymroddedig ar y Gymraeg sy'n sicrhau bod ystyriaeth ddyledus a phriodol yn cael ei rhoi i'r effaith ar y Gymraeg o unrhyw bolisiâu wedi'u diweddarau neu newydd a gyflwynir gan y Cyngor.

4.2 Mae hyfforddiant ar gael i Aelodau a gweithwyr ar sut i gwblhau'r asesiad o effaith i sicrhau y cânt eu gwneud yn gywir ac yn llawn.

- 4.3 Mae'r Cyngor yn gweithredu'r wefan ymgynghori 'Eich Llais Wrecsam'. Safle hollol ddwyieithog yw hwn a ddatblygwyd gan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam, ac fe'i dyluniwyd i ddwyn ynghyd gyfleoedd i ymgynghori ac ymgysylltu mewn un man. Mae'n galluogi'r rheiny sy'n cofrestru i greu eu proffil eu hunain a chael dweud eu dweud ar ystod o faterion a gwasanaethau sy'n effeithio ar Wrecsam ac ardaloedd amgylchynol Gogledd Cymru.
- 4.4 Defnyddiwyd y wefan i gasglu gwybodaeth am faterion ar y Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi defnyddio grwpiau ffocws gyda siaradwyr Cymraeg yn yr ardal i gasglu eu safbwyntiau ar faterion lleol o safbwynt y Gymraeg.

## **5. Cydymffurfiaeth â'r Safon Weithredol**

- 5.1 Mae gweithwyr a rheolwyr wedi cael gwybod am y Safonau Gweithredol a hawliau'r gweithwyr.
- 5.2 Mae Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor wedi'i diweddarau a'i chryfhau yng ngoleuni cyflwyniad y Safonau ac mae bellach yn cynnwys hawliau'r gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 5.3 Mae'r Cyngor wedi creu safle pwrpasol ar ei fewnrwyd sy'n amlinellu'r arweiniad mewn perthynas â'r Safonau, yr hyn sy'n ddisgwylidig gan weithwyr sy'n gweithredu'r safonau, cwestiynau cyffredin, hawliau siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys y 'polisi Cymraeg yn y Gweithle'.
- 5.4 Mae'r Cyngor wedi diweddarau ei fodiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gafodd ei gynnwys fel modiwl hyfforddiant gorfodol i'w gwblhau gan yr holl staff em eu PRD blynyddol ar gyfer 2018-19. Mae hyfforddiant mewn lefelau sylfaenol, canolradd ac uwch ar gael i weithwyr ac Aelodau. Yn ogystal, darperir gweithdy Cymraeg blynyddol i aelodau i sicrhau y cânt eu diweddarau gyda chynnydd yn erbyn gweithrediad a mentrau newydd.
- 5.5 Darparwyd Cysgair [gwirydd sillafu a gramadeg Cymraeg] i bob siaradwr Cymraeg a dysgwr Cymraeg yn y Cyngor a ofynnodd amdano.
- 5.6 Mae adnoddau i gefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg ar gael ar y fewnrwyd ac yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol ac yn ddefnyddiol.
- 5.7 Mae'r Cyngor wedi penodi Cydlynedd y Gymraeg. Ei rôl yw ymroi i ddatblygu a gwella ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg ac i gyflwyno gwasanaethau'n ddwyieithog.
- 5.8 Darparwyd cyfarwyddiadau ar sut i osod 'Iaith Gwaith' ar y llofnod e-bost ac mae pob llofnod awtomatig bellach yn ddwyieithog. Mae teitl pob aelod o staff yn ddwyieithog fel ag y mae'r negeseuon allan o'r swyddfa.

- 5.9 Mae polisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â chyflogaeth a chontractau, gan gynnwys cardiau gadael, bellach ar gael yn ddwyieithog a gellir eu gweld ar y fewnwyd.
- 5.10 Bu gan y Cyngor ddull grymus ar waith am sawl blwyddyn i benderfynu ynghylch a ddylid hysbysebu swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. At ei gilydd, mae swyddi a hysbysebir fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol mewn ardaloedd sy'n wynebu'r cyhoedd fel y Ganolfan Gyswllt. Yn ystod 2017-18, hysbysebwyd a recriwtiwyd i bum swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.
- 5.11 Mae ffurflenni cais ar gyfer swyddi wedi'u haddasu er mwyn i ymgeiswyr swyddi nodi a ddymunant ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad ni waeth ydy'r Gymraeg yn hanfodol i'r swydd ai peidio.
- 5.12 Gellir gweld sgiliau iaith gweithwyr yn y rhan Monitro Perfformiad ac mae ynghlwm fel Atodiad 1 – gweler isod.

## 6. Cwynion

- 6.1 Yn ystod 2017-18, derbyniodd y Cyngor gwynion gan aelodau'r cyhoedd ac mae'r rhain wedi'u cofnodi, eu hymchwilio iddynt a'u dogfennu isod.

<b>Cwynion Iaith Gymraeg 2017/18</b>	
<b>Cwyn</b>	<b>Cam / Ateb</b>
Mae'r arwyddion rheoli traffig ar Heol Plas Bennion ac o'i chwmpas yn Saesneg yn unig.	Roedd yr arwyddion dan sylw'n rhan o ddatblygiad preifat ac felly ni all y Cyngor fynnu eu bod yn darparu arwyddion dwyieithog. Fodd bynnag, cytunwyd gyda'r Adran Rheoli Datblygiad Prifffyrdd, y bydd yn gofyn o hyn ymlaen am arwyddion rheoli traffig dwyieithog fel rhan o'r broses ceisiadau cynllunio.
Cymraeg anghywir ar bost Twitter.	Wedi'i datrys: Newidiwyd y post.
Cymraeg anghywir ar arwydd ym maes parcio Marchnad y Bobl.	Wedi'i datrys: Hysbyswyd yr adran a disodlwyd yr arwydd ar yr un diwrnod.
Cwyn yn ymwneud â digwyddiad Sinema Awyr Agored Wrecsam ar 18 Chwefror, lle aethpwyd â'r cwsmeriaid i wefan Saesneg yn unig am docynnau, 'Dyma Wrecsam'	Wedi'i datrys: Cyfarfu â'r tîm digwyddiadau a chytunwyd bod rhaid i'r holl ddigwyddiadau a ariennir neu a ariennir yn rhannol gan y Cyngor gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
Cwyn; Anfonodd y Cyngor lythyr uniaith Saesneg mewn ymateb i gais am grant a gyflwynwyd yn y Gymraeg.	Wedi'i datrys: Anfonwyd llythyr o ymddiheuriad at yr ymgeisydd yn Gymraeg
Anhapus gyda Sprouts a darpariaeth y Gymraeg	Ymdriniwyd â'r mater gan yr adran berthnasol
Cwyn Nid yw'r gwasanaeth ffôn awtomataidd Cymraeg yn adnabod y geiriau Cymraeg wrth ateb yn gadarnhaol	Wedi'i datrys: Newidiwyd y neges i gynorthwyo cwsmeriaid sy'n defnyddio'r dewis awtomataidd yn y

	Gymraeg o gofio cyfyngiadau'r rhaglen gyda'r geiriad (oherwydd bod nifer o amrywiadau o ateb yn gadarnhaol yn y Gymraeg)
Cwyn Mae cyfeiriadau cwsmeriaid yn Civica wedi'u rhestru yn y fformat Saesneg ac nid yn y Gymraeg.	Wedi'i datrys:  Gwnaed newidiadau i'r system felly dengys y cyfeiriad yn Gymraeg nawr.
Cwyn Roedd y testun Cymraeg yn anghywir ar y blychau ailgylchu ac ni chafodd yr achwynydd sticer i roi dros y geiriad i'w gywiro	Wedi'i datrys:  Roedd y cyngor yn ymwybodol o'r gwall a chynhyrchwyd sticeri i orchuddio'r testun a oedd ar gael o ofyn. Anfonwyd sticer at yr achwynydd ond ni dderbyniodd ef, felly anfonwyd un arall.
Cwyn Mae enwau'r wardiau etholiadol ar wefan y Cyngor yn uniaith Saesneg, nid yn Gymraeg hefyd.	Wedi'i datrys: Mae enwau wedi'u newid ar y wefan.
Cwyn bod manylion Cyngorydd lleol yn anghywir ar wefan y Cyngor.	Wedi'i datrys:  Anfonwyd ymateb llawn i'r achwynydd a chywirwyd y manylion ar ein gwefan.
3 x Cwyn mewn perthynas â gwall sillafu ar wefan y Cyngor ac nad oedd bar chwilio i'w weld ar y fersiwn Gymraeg,	Wedi'i datrys:  Anfonwyd ymateb at yr achwynydd a chywirwyd y gwallau.
Cwyn fod dolen gyswllt ar fersiwn Gymraeg y wefan yn mynd â defnyddwyr at y dudalen Saesneg	Wedi'i datrys:  Anfonwyd ymateb at yr achwynydd a chywirwyd y ddolen.
Cwyn nad oedd grwpiau gwleidyddol ar fersiwn Gymraeg gwefan y Cyngor wedi'u pennu.	Wedi'i datrys:  Anfonwyd ymateb at yr achwynydd a diweddarwyd y tudalennau perthnasol.
Cwyn na weithredodd y Cyngor ar gŵyn flaenorol a wnaed yn 2015-16 mewn perthynas â marciau ffordd nad oeddent yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y tu allan i orsaf fysus Stryd y Brenin.	Wedi'i datrys:  Nid oedd gan y Cyngor unrhyw gofnod fod y cwyn wedi'i gwneud ac felly nid oedd modd iddynt weithredu ar y gŵyn. Rhoddwyd gwybod i'r achwynydd a bydd y mater yn cael ei ymdrin ag ef fel cwyn eleni fel rhan o'r gwaith sydd wedi'i drefnu.
Cwyn fod siec wedi'i chyhoeddi yn uniaith Saesneg	Cyfeiriwyd y mater at Gomisiynydd y Gymraeg gan yr achwynydd ac mae wedi agor ymchwiliad. Rydym yn aros am y cylch gorchwyl arfaethedig.
Cwyn fod enwau 2 ward wedi'u sillafu'n anghywir a honnir nad oes fersiwn Gymraeg o un arall ar dudalennau Cymraeg y cyngor o'i wefan.	Wedi'i datrys:  Cywirwyd enwau'r wardiau yn unol â chanllawiau enwau lleoedd y Cyngor. Mae enw'r ward arall yn cael ei ystyried fel rhan o waith safoni enwau lleoedd Comisiynydd y Gymraeg

Cwyn fod gwallau yn Atodiad 1 adroddiad Monitro Blynyddol 2015-16 y Cyngor	Wedi'i datrys:  Postiodd y Cyngor hysbysiad cywiro ar dudalen gwefan adroddiad monitro blynyddol iaith Gymraeg y Cyngor 2016-17 i'r perwyl hwnnw. Anfonodd yr aelod Arweiniol e-bost at bob Cynghorydd i dynnu eu sylw ato.
Cwyn nad oedd y Cyngor wedi nodi ceisiadau'r achwynwyr i fersiwn Gymraeg ei gyfeiriad gael ei ddefnyddio yn yr holl gyfathrebiadau.	Wedi'i datrys:  Mae system CMS y Ganolfan Gyswllt yn nodi bod yr achwynydd yn dymuno i'r holl gyfathrebiadau a'r ohebiaeth gael eu hanfon at ei gyfeiriad Cymraeg a gwnaed pob adran yn ymwybodol o gais yr achwynydd a gofynnwyd iddynt ddiweddarau eu cronfeydd data.
Anghywirdeb ar dudalen blychau gwastraff ailgylchu Cymraeg y wefan	Gwnaed cywiriad
Cwyn fod fersiwn Gymraeg Map Wardiau'r wefan yn mynd ag ymwelwyr i'r fersiwn Saesneg wrth iddynt ddilyn y ddolen gyswllt i wardiau penodol.	Nid oes angen camau gweithredu: Archwiliodd y Cyngor y map wardiau a chanfuwyd bod clicio ar yr enw ward Cymraeg yn mynd â chi at y dudalen Gymraeg berthnasol.
E-bost i'r Prif Weithredwr ynghylch anghywirdebau ar fersiwn Gymraeg y Cyngor o'r wefan	Wedi'i datrys:  Cyhoeddi ymateb i nodi y byddai'r swyddogion perthnasol yn cael gwybod a bod cywiriadau'n cael eu gwneud

6.2 Yn ogystal, bu'r Cyngor yn destun ymchwiliadau a gychwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn ymateb i gwynion a wnaed yn uniongyrchol iddi am ddiffyg cydymffurfiaeth honedig ar ran y Cyngor mewn perthynas â'i Safonau Cymraeg. Cynhaliwyd yr ymchwiliadau hyn dan adran 71 Deddf Mesur y Gymraeg [2011] ac fe'u crynhoir isod. Dylid nodi bod yr adroddiad hwn yn rhoi manylion cynnydd a statws yr ymchwiliadau rhwng 1.4.17 a 31.3.18. Bydd unrhyw waith pellach ar symud ymchwiliadau parhaus yn eu blaen yn ffurfio rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-19.

6.3 Lle cyfeirir at gamau gweithredu sy'n cael eu gweithredu fel 'Cylch Gorchwyl Terfynol', mae hyn yn ymwneud â phenderfyniadau terfynol y Comisiynydd ynghylch y gŵyn ac yn amlinellu'r amserlenni a'r camau gweithredu y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu cymryd i sicrhau bod y mater yn cael ei ddatrys a chau'r ymchwiliad.

<b>Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg 2017/18</b>	
<b>Ymchwiliad</b>	<b>Statws</b>
<b>CSG134</b> (108 yn flaenorol)	<b>Ymchwiliad wedi'i gloi.</b> Mae'r Cyngor wedi rhoi'r camau a amlinellir yn

Mae'r Cyngor yn methu yn ei ddyletswydd i gynnig gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg	y Cylch Gorchwyl Terfynol ar waith.
<b>CSG172</b> Nid yw'r digwyddiadau Beth Sy'n Digwydd a gyhoeddir trwy Gov Delivery yn ddwyieithog	Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r camau fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl Terfynol
<b>CSG176</b> Honiad o ddiffyg gwasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Groeso ac ar gyfrifon Twitter a Facebook y Ganolfan Groeso	<b>Dim ymchwiliad</b> Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg wybod i'r Cyngor ei bod wedi penderfynu peidio ag ymchwilio
<b>CSG 184</b> Gwallau sillafu ar fersiwn Gymraeg rhai o'r negeseuon hyrwyddo ar gefn tocynnau meysydd parcio'r Cyngor	<b>Ymchwiliad wedi darfod.</b> Nododd y Comisiynydd "Rydw i o'r farn na fyddai parhau i ymchwilio i unrhyw fân wallau gramadegol ar y tocynnau yn ddefnydd cymesur o'm hadnoddau"
<b>CSG185</b> Cafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar beiriannau talu am barcio newydd y Cyngor	Diwygiodd y Cyngor y peiriannau talu yn unol â chamau gweithredu'r Cylch Gorchwyl Terfynol
<b>CSG 208</b> Arwydd ffordd dros dro uniaith Saesneg	<b>Parhaus</b> Mae'r Cyngor wedi cadarnhau cyfrifoldeb
<b>CSG 225</b>  Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â phoster yn hysbysebu cyngerdd gan Wasanaeth Cerdd Wrecsam. Cysylltodd yr achwynydd â'r Comisiynydd i ddatgan eu bod yn anhapus bod dyddiad y cyngerdd yn wahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac oherwydd bod y Saesneg uwchben y Gymraeg.	<b>Wedi darfod</b>  Nododd y Comisiynydd fod yr achwynydd wedi cael gwybod am ei phenderfyniad i beidio ag ymchwilio.
<b>CSG 227</b>  Derbyniwyd cwyn yn honni bod y wybodaeth ar y dudalen we Gymraeg mewn perthynas â chanolfannau hamdden y Sir yn ddiffygiol. Nododd yr achwynydd fod y dolenni o fersiwn Gymraeg gwefan y Cyngor yn cysylltu â gwybodaeth uniaith Saesneg ar y wefan 'Freedom Leisure'.	Mae Cydlynnydd y Gymraeg, ynghyd â'r staff yn Freedom Leisure wedi prawfddarllen a diwygio'r gwefannau ar gyfer pob canolfan hamdden ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg
<b>CSG 233</b>  Gwallau ieithyddol ar lythyr gwŷs treth gyngor Cymraeg a anfonwyd at yr achwynydd ar 12/06/2017 a methiant honedig i ddarparu gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn i'r achwynydd dan sylw yn adran y Dreth Gyngor ar 13/06/2017 trwy ddefnyddio'r rhif 01978 298992.	Cywirodd y Cyngor y gwallau yn y llythyr fel y bo angen.  <b>Statws am fethu darparu gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn:</b> Canfu'r Comisiynydd o blaid y Cyngor a chanfuwyd nad oedd y Cyngor wedi mynd yn erbyn ei Safonau.
<b>CSG 237</b>	<b>Yn yr arfaeth</b>

<p>Amau methiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth godi arwyddion ar ôl y dyddiad gosod.</p>	<p>Parhaus. Daeth cylch gorchwyl terfynol i law a chyflwynwyd tystiolaeth i'r Comisiynydd.</p>
<p><b>CSG 251</b></p> <p>Mae'r achwynydd yn honni iddo wneud apwyntiad i gofrestru genedigaeth ei blentyn ar 19/07/2017. Pan gyrhaeddodd swyddfeydd y Cyngor, rhoddwyd gwybod iddo nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael. Methodd fwrw ymlaen â'r apwyntiad. Nid ofynnwyd iddo pan wnaeth yr apwyntiad a oedd eisiau gwasanaeth Cymraeg; felly roedd rhaid gwneud apwyntiad arall.</p>	<p><b>Yn yr arfaeth</b></p> <p>Cyflwynwyd tystiolaeth, yn aros am rybudd o benderfyniad arfaethedig y Comisiynydd.</p>
<p><b>CSG 252</b></p> <p>Cwyn ar 19/07/2017 fod y Cyngor wedi methu darparu gwasanaeth Cymraeg i aelod o'r cyhoedd wrth gysylltu ag Adran y Cofrestrydd ar 01978 298994</p>	<p><b>Wedi darfod</b></p> <p>Penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg i beidio ag ymchwilio.</p>
<p><b>CSG 253</b></p> <p>Cwyn fod y Cyngor wedi defnyddio fersiwn Saesneg cyfeiriad cwsmer ar e-bost</p>	<p><b>Yn yr arfaeth</b></p> <p>Cyflwynwyd tystiolaeth</p>
<p><b>CSG 260</b></p> <p>Cwyn gan aelod o'r cyhoedd fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safonau'r Gymraeg mewn perthynas â thocynnau parcio talu ac arddangos.</p>	<p><b>Yn yr arfaeth</b></p> <p>Daeth cylch gorchwyl terfynol i law.</p>
<p><b>CSG 261</b> <b>CSG 262</b> <b>CSG 268</b> <b>CSG 269</b></p> <p>Mae'r achwynydd yn honni ar bedwar achlysur yn ystod mis Awst 2017 fod gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn anghyson o ran y defnydd o'r Gymraeg o gymharu â'r Saesneg, a bod y wybodaeth y byddai darllenydd Cymraeg yn ei derbyn yn llai na'r wybodaeth a rennir ar y dudalen Saesneg.</p>	<p><b>Yn yr arfaeth</b></p> <p>Parhaus a thystiolaeth wedi'i hanfon.</p>
<p><b>CSG 280</b></p>	<p><b>Parhaus</b></p>



<p>Dywedodd yr achwynydd iddynt dderbyn siec a gohebiaeth yn uniaith Saesneg gan y Cyngor mewn perthynas â 'thaliad ewyllys da'.</p>	<p>Daeth cylch gorchwyl ymchwiliad i law.</p>
<p><b>CSG 281</b></p> <p>Cwyn mewn perthynas â lleoliad y Gymraeg ar arwydd dros dro</p>	<p><b>Yn yr arfaeth</b></p> <p>Aros am y cylch gorchwyl arfaethedig.</p>
<p><b>CSG288</b></p> <p>Anghywirdeb a diffyg Cymraeg ar arwydd yn Rhosddu</p>	<p><b>Wedi darfod</b></p> <p>Rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Cyngor na fyddai'n ymgymryd ag ymchwiliad i'r arwydd penodol hwn gan ei bod hi eisoes wedi comisiynu ymchwiliad i brosesau a gweithdrefnau cyffredinol y Cyngor i sicrhau cywirdeb a chydymffurfiaeth â'i gyfres o arwyddion.</p>
<p><b>CSG 290</b></p> <p>Cwyn mewn perthynas ag arwyddion dros dro uniaith Saesneg</p>	<p><b>Wedi darfod</b></p> <p>Wrthi'n ymchwilio i gŵyn union yr un fath ar yr un pryd.</p>
<p><b>CSG301</b></p> <p>Arwydd uniaith Saesneg ym maes parcio Marchnad y Bobl</p>	<p><b>Wedi cloi</b></p> <p>*Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor ar 08/03/2018 fod y Comisiynydd wedi penderfynu peidio ag ymgymryd ag ymchwiliad</p>
<p><b>CSG302</b></p> <p>Arwyddion ffordd Saesneg yn unig ar yr A539</p>	<p><b>Wedi cloi</b></p> <p>*Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor ar 08/03/2018 fod y Comisiynydd wedi penderfynu peidio ag ymgymryd ag ymchwiliad</p>
<p><b>CSG 306</b></p> <p>Honnodd yr achwynydd ar 18/12/17 fod rhai ymgynghoriadau ar dudalennau Saesneg gwefan y Cyngor heb fod ar gael ar dudalennau gwefan Cymraeg y Cyngor. Darparwyd y dolenni cyswllt gan yr achwynydd i'r tudalennau perthnasol - ymddengys bod llai o gysylltiadau ag ymgynghoriadau ar y tudalennau Cymraeg na'r tudalennau Saesneg - roedd dyddiadau cau rhai o'r ymgynghoriadau wedi mynd heibio.</p>	<p><b>Parhaus</b></p> <p>Derbyniwyd hysbysiad o dystiolaeth a Chylch Gorchwyl Terfynol</p>
<p><b>CSG 317</b></p> <p>Cwyn mewn perthynas ag arwyddion ffordd</p>	<p><b>Yn yr arfaeth</b></p>

dros dro

\* ail-agorwyd yr ymchwiliadau hyn yn dilyn hynny a byddant yn cael eu hadrodd yn adroddiad 2018-19.

## 7. Monitro Perfformiad

<b>DANGOSYDD PERFFORMIAD</b>	<b>GWIR BERFFORMIAD</b>
Sicrhau bod y targedau yn y fframwaith 'Mwy na Geiriau' yn cael eu diwallu	Gweler Atodiad 1 isod
Gwasanaeth ar-lein [gwefan] - % a nifer sy'n defnyddio gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> niferoedd yr ymweliadau Cymraeg â'r hafan: Ymwelwyr Saesneg 307,912 Ymwelwyr Cymraeg 5,236 h.y. 1.7% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> niferoedd yr ymweliadau Cymraeg â'r hafan: Ymwelwyr Saesneg 291,423 Ymwelwyr Cymraeg 4,726 Sy'n gyfwerth â 1.6% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017/18</b> niferoedd yr ymweliadau Cymraeg â'r hafan Ymwelwyr Saesneg 394,782 Ymwelwyr Cymraeg 5,976 h.y. 1.5% yn Gymraeg</p>
Canolfan Gyswllt – adrodd ar % a nifer y galwadau / ymweliadau yn Gymraeg	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> derbyniodd Galw Wrecsam 237,447 o alwadau/ymweliadau yn Saesneg; a 215 yn Gymraeg h.y. 0.090%. yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> derbyniodd y Ganolfan Gyswllt: 262,191 o alwadau/ymweliadau yn Saesneg; a 1307 yn Gymraeg h.y. 0.5% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017/18</b> derbyniodd y Ganolfan Gyswllt: 250,952 o alwadau/ymweliadau yn Saesneg A 1,387 yn Gymraeg 0.6%</p>
Cyfanswm nifer y trafodion ar y wefan	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> cafwyd: Cymraeg: 7,042 774,956 yn Saesneg h.y.1% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> cafwyd: 890,565 yn Saesneg a; 8,666 yn Gymraeg h.y. 1% yn Gymraeg</p>

	<p><b>Yn ystod 2017/18</b>  Saesneg: 1,318,807  Cymraeg: 11,613  h.y. 1% yn Gymraeg</p>
<p>Nifer a % y negeseuon e-bost a dderbyniwyd gan y Ganolfan Gyswllt yn Gymraeg ac yn Saesneg</p>	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> derbyniodd y Ganolfan Gyswllt:  21,399 e-bost yn Saesneg;  166 yn Gymraeg  h.y. 0.77% yn Gymraeg.</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b>, derbyniodd y Ganolfan Gyswllt:  28,691 e-bost yn Saesneg;  a 48 yn Gymraeg  h.y. 0.17% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017/18</b>  Negeseuon e-bost Saesneg: 23,502  Negeseuon e-bost Cymraeg: 32  h.y. 0.14% yn Gymraeg</p>
<p>Canolfan Gyswllt – Nifer a % y cwsmeriaid sy'n cynnal eu busnes naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn y Gymraeg a'r Saesneg</p>	<p><b>Yn ystod 2015/16:</b>  Cynhaliodd 123,087 o gwsmeriaid eu busnes yn Saesneg o gymharu â 5 yn Gymraeg sy'n gyfwerth â 0.004%</p> <p><b>Yn ystod 2016/17:</b>  Cynhaliodd 122,446 o gwsmeriaid eu busnes yn Saesneg; o gymharu ag 8 yn Gymraeg  h.y. 0.0065% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017/18:</b>  Cynhaliodd 142,398 o gwsmeriaid eu busnes yn Saesneg o gymharu â 9** yn Gymraeg  0.0063%</p> <p>**Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar nifer y cwsmeriaid a gofnodwyd ar ein system Rheoli'r Berthynas â Chwsmeriaid sydd wedi gofyn am gynnal eu busnes yn Gymraeg.</p> <p><b>Cytunwyd ar gyfer 2018/19, y bydd yr ymgynghorwyr i gwsmeriaid yn y ganolfan gyswllt yn gofyn i gwsmeriaid a hoffon nhw gofnodi eu dewis iaith. Bydd hyn yn cael ei ofyn yn ystod pob ymholiad llawn i gwsmeriaid a gofnodir ar ein system Rheoli'r Berthynas â Chwsmeriaid.</b></p>
<p>Sicrhau bod holl ddarpariaeth y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn ddwyieithog a'i fod yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg</p>	<p><b>Yn ystod 2015/16</b>  Facebook:  5,010 yn hoffi yn Saesneg ac 85 yn hoffi yn Gymraeg  h.y. 1.7 % yn Gymraeg</p> <p>Twitter:</p>

	<p>15,085 o ddilynwyr yn Saesneg a 374 o ddilynwyr yn Gymraeg. h.y. 2.5% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> Facebook: 6,699 yn hoffi yn Saesneg ac 111 yn hoffi yn Gymraeg h.y. 1.65% yn Gymraeg</p> <p>Twitter: 17,155 o ddilynwyr yn Saesneg a 456 o ddilynwyr yn Gymraeg h.y. 2.6% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017/18</b> Facebook: 8,323 yn hoffi yn Saesneg a 412 yn hoffi yn Gymraeg (5%)</p> <p>Twitter: 19,000 o ddilynwyr yn Saesneg a 628 o ddilynwyr yn Gymraeg (3.3%)</p>
Nifer a % y swyddi yn ardal y brif dderbynfa, y Ganolfan Gyswllt neu'r siop un stop a ddynodwyd bod y Gymraeg yn hanfodol a % y rhai a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> ni hysbysebwyd unrhyw swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn ardal y brif dderbynfa, y ganolfan gyswllt neu'r siop un stop.</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> hysbysebwyd pedair swydd fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a recriwtiwyd yn llwyddiannus iddynt.</p> <p><b>Yn ystod 2017/18</b> – hysbysebwyd 5 swydd fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a recriwtiwyd i 5 ohonynt.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gennym 10 aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg yn ardal y brif dderbynfa, y Ganolfan Gyswllt a'r siop un stop sy'n gyfwerth â 29% o'r swyddi.</p>
Unrhyw newidiadau i lywodraethiant a chraffu mewnol o Safonau'r Gymraeg	Dim. Er nad oes angen i'r Cyngor mwyach anfon copi ffurfiol o'i Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg, bydd yn parhau i gyflwyno'r adroddiad i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Gwaith cyn iddo gael ei uwchlwytho i'r wefan.
Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel gydymffurfiaeth benodol	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> 55 aelod o staff yn astudio'r Gymraeg trwy Goleg Cambria sy'n gyfwerth â 1.7% o staff heb fod yn addysgu</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> 40 aelod o staff yn astudio'r Gymraeg trwy Goleg Cambria sy'n gyfwerth â 1.2% o'r gweithlu heb fod yn addysgu.</p> <p><b>Yn ystod 2017/18</b> Yn ystod 2017/18 46 aelod o staff yn astudio'r Gymraeg trwy Goleg Cambria sy'n gyfwerth â 1.6% o'r gweithlu heb fod yn addysgu</p>
Nifer a % y staff sy'n derbyn	<b>Yn ystod 2015/16</b> cwblhaodd 16 aelod o staff y modiwl e-

<p>hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg</p>	<p>ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a oedd yn gyfwerth â 0.5% o'r gweithlu heb fod yn addysgu.</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> roedd y ffigur yn 58 sy'n gyfwerth â 1.67%. Mae'r Cyngor wrthi'n diweddarau ei fodiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a bydd angen i'r holl staff ei gwblhau a bydd manylion hyn yn cael eu rhoi yn eu hanghenion hyfforddiant trwy eu harfarniad blynyddol. Cafwyd problem dechnegol hefyd gyda safle e-ddysgu'r Cyngor a olygai na allai'r gweithwyr gwblhau'r modiwl.</p> <p><b>Yn ystod 2017/18</b> Aeth plattform e-ddysgu newydd y Cyngor yn fyw ym mis Awst 2017 ac aeth modiwl diweddaraf Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn fyw ar 23/01/2018. Cafodd hyn ei gynnwys fel modiwl gorfodol i'w gwblhau gan yr holl staff. Hyd at 31/03/2018, cwblhaodd <b>171</b> o aelodau staff y modiwl, sy'n gyfwerth â 6.1% o staff.</p>
<p>Nifer a % y staff yng ngwasanaeth y sefydliad sy'n medru'r Gymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Yn ôl adran</li> <li>(ii) Yn unol â gradd neu swydd</li> <li>(iii) Fesul gweithle</li> </ul>	<p>Gweler Atodiad 2 [isod] am ragor o fanylion</p>

## 8. Camau i'r Dyfodol

- 8.1 Mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Hybu'r Gymraeg 5 mlynedd yn ffurfiol ym mis Mawrth 2017. Roedd hyn mewn ymateb uniongyrchol i Safon 145, a ofynnodd i'r Cyngor lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n gosod sut mae'n bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn y Fwrdeistref Sirol. Yn ogystal, ceisia weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Dyfeisiwyd y strategaeth ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol a dymuna'r Cyngor gydnabod ei ddiolch i'r partneriaid hynny wrth helpu ffurfio a datblygu'r strategaeth. [Gellir edrych ar gopi llawn o'r strategaeth fan hyn.](#)
- 8.2 Rhennir y Strategaeth yn bum maes ar wahân sy'n ceisio cyflawni'r nodau uchod. Yn ogystal, mae'n cysylltu'n agos â'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan fod pwyslais enfawr ar bwysigrwydd darparu addysg cyfrwng Cymraeg a rhoi cyfleoedd i'n pobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg a ddysgant yn yr ysgol mewn lleoliad cymdeithasol a naturiol. Mae'n cynnwys hefyd ddymuniad y Cyngor i weld cynnydd yn nifer y siopau a busnesau sy'n gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a gweld mantais y Gymraeg a chynnwys y gymuned wrth ddeall eu hanghenion a'u dymuniadau mewn perthynas â'r Gymraeg.

- 8.3 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno dau ddigwyddiad diwylliannol i'w galendr ac am y bumed flwyddyn yn olynol, mae'r Cyngor wedi comisiynu Menter Iaith Maelor i drefnu a chyflwyno'i Barêd Dydd Gŵyl Dewi. Am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2018, cafwyd penwythnos o adloniant cerddorol wedi ymroi i ddatblygu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig yn y Fwrdeistref Sirol i gyd-fynd â hyn. Ym mis Mai 2017, cyflwynodd y Cyngor fenter newydd o'r enw 'Hwb Cymraeg'. Digwyddiad diwylliannol ac iaith Gymraeg tridiau o hyd oedd Hwb yng nghanol y dref a redodd ochr yn ochr â digwyddiad Focus Wales sydd eisoes yn hynod lwyddiannus. Unwaith eto, gweithiodd y Cyngor gyda'i bartneriaid yn sector y Gymraeg i weithredu'r digwyddiad. Cafodd gyhoeddusrwydd ar raddfa eang a chafodd ei gynnwys ar BBC Radio Cymru ac fe'i mynychwyd gan nifer dda gydag adborth cadarnhaol iawn. Mae'r Cyngor bellach wedi gwneud hyn yn ddigwyddiad blynyddol.
- 8.4 Fel y nodwyd yn y Cyflwyniad, mae datblygiad a gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gyfle arall i wella'r gwaith rydym yn ei wneud i ddiwallu'r Safonau. Mae'r Cyngor hefyd wedi croesawu dyhead y Cynulliad i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a cheisio cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc fydd yn cael eu haddysgu a'u hyfforddi i weithio mewn gweithle dwyieithog yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn realistig am fod hyn yn nod hynod uchelgeisiol ac mae'n poeni heb gynllunio priodol, cynaledig a thrwyadl ar lefel genedlaethol, efallai na fydd yn cael ei gyflawni.
- 8.5 Darparodd y Cyngor hefyd ei sylwadau a'i ymateb ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru: Taro'r Cydbwysedd Iawn: cynigion ar gyfer Mesur Iaith Gymraeg. Dyluniwyd y cynigion i sicrhau arweinyddiaeth gref ar gyfer yr iaith; creu trefniadau grymus i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a gwella'r gyfundrefn Safonau bresennol.

## **ATODIAD 1**

### **Fframwaith 'Mwy na geiriau.'**

## Adrodd yn ôl ar gynnydd fframwaith dilynol Mwy na Geiriau 2017-18:Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyflwynwyd y Fframwaith hwn gan Lywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae ei gyflwyniad wedi arwain at nifer o fentrau sy'n sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf, gan ddefnyddio sgiliau ac adnoddau sydd eisoes yn bodoli.

Fel darparwr gofal cymdeithasol yn y gymuned mae'r Cyngor yn un o'r nifer o bartneriaid sy'n cyflawni'r strategaeth hon ac felly gofynnir iddynt adrodd ar gynnydd yn flynyddol.

### Amcan 1: Arweinyddiaeth Genedlaethol a Lleol, a Pholisi Cenedlaethol

**1.3** Adrannau Gwasanaeth Cymdeithasol i gynnal/penodi uwch swyddog i fod yn Bencampwr y Gymraeg, a Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i ddiogelu a hyrwyddo'r rôl o Swyddog yr Iaith Gymraeg yn eu sefydliadau.

Tystiolaeth/Cynnydd	Rhwysrau/Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Pencampwyr iaith wedi'u penodi yn yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant.</li> <li>O fewn y gwasanaethau Oedolion a Phlant mae siaradwyr Cymraeg dynodedig a fydd yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> </ul>	

**1.6** Sefydliadau GIG Cymru ac ADSS Cymru, mewn digwyddiadau cenedlaethol, i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darpariaeth gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tystiolaeth/Cynnydd	Rhwysrau/Heriau

### Amcan 2: Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil

**2.1** Dylai GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol fapio'r ddarpariaeth a'r capasiti presennol i roi 'Cynnig Gweithredol' ar draws yr holl wasanaethau (gan gynnwys Gofal Sylfaenol). Os yw capasiti'n isel, dylid llunio cynllun gweithredu er mwyn ei gynyddu. Rhaid rhoi blaenoriaeth i sicrhau y gellir rhoi 'Cynnig Gweithredol' i bobl yn y grwpiau blaenoriaeth

Tystiolaeth/Cynnydd	Rhwysrau/Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>O ddadansoddiadau blaenorol,</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae data am sgiliau iaith</li> </ul>

<p>gwelwyd fod diffyg capasiti i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn llawer o dimau ar draws y gwasanaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynlluniau wedi'u sefydlu i wneud rhagor o waith mapio darpariaeth a capasiti.</li> <li>• Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Gynllun Gweithredu i fynd i'r afael â sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cynyddu capasiti i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar recriwtio, datblygu a defnyddio'r sgiliau sydd eisoes ar gael yn fwy effeithiol .</li> <li>• Mae Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Corfforaethol wedi'i datblygu a'i lansio. Un o'r camau gweithredu penodol yw bod y sefydliad yn cynnal archwiliad er mwyn cymharu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer swyddi penodol yn erbyn y sgiliau sydd ar gael o fewn y gweithlu ar hyn o bryd. Bydd y data hwn yn cynorthwyo'r Gwasanaethau Cymdeithasol i fapio'r sgiliau presennol ymhellach ac adnabod bylchau mewn darpariaeth.</li> </ul>	<p>Gymraeg staff yn seiliedig ar hunanasesiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'r data'n gyflawn, fodd bynnag anogir Rheolwyr i drafod sgiliau Gymraeg fel rhan o'r broses werthuso. Mae'r nifer y dechreuwyr newydd ac ail-lunio yn cael effeithiau ar gasglu data</li> <li>• Staff ddim yn dweud beth yw eu sgiliau Gymraeg, neu'n dweud fod lefel eu sgiliau'n is nag ydyw mewn gwirionedd.</li> <li>• Diffyg hyder ar ran staff i ddefnyddio'u Gymraeg yn y gweithle</li> <li>• Yn ôl Cyfrifiad 2012, 12.9% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n siarad Gymraeg (sydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru).</li> <li>• Anawsterau recriwtio i rai rolau e.e. gweithwyr cymdeithasol, staff gofal</li> <li>• Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn cael ei ail-lunio er mwyn datblygu strwythur addas ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol ac er mwyn rheoli heriau ariannol. Mae hyn wedi effeithio ar recriwtio.</li> </ul>
---	--

**2.2.** Dylai Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol fod â systemau yn eu lle i gofnodi bod 'Cynnig Gweithredol' wedi'i wneud drwy gofnodi anghenion / dewisiadau ieithyddol yng nghofnodion unigolion. Mae hyn hefyd yn berthnasol i bob darparwr gofal eilaidd a sylfaenol.

<b>Tystiolaeth/Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau/Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau wrth iddynt gael eu hatgyfeirio, neu yn ystod trafodaethau 'Be' sy'n bwysig', beth yw eu dewis iaith</li> <li>• Dewis iaith defnyddwyr yn cael ei gofnodi yn RAISE a CHARMS ar hyn o bryd ac adroddiadau misol yn cael eu cynhyrchu.</li> <li>• Mae Wreccsam ar hyn o bryd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill a GIG i ddatblygu system electronig integredig newydd WCCIS</li> <li>• Mae Set Data Craidd ar hyn o bryd yn cael ei beilota o fewn Gofal Cymdeithasol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• System WCCIS newydd i gael ei rhoi ar waith ym mis Medi 2018</li> </ul>



Oedolion. Bydd hyn yn ein galluogi i gofnodi ac adrodd ar y 'Cynnig Gweithredol' a sut y darperir gofal dilynol	
---	--

**2.5** Dylai systemau data iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol alluogi'r gwasanaeth i weithredu'n ddwyieithog er mwyn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft:

- Dylid casglu a chofnodi sgiliau Cymraeg staff yn electronig (dylid diwygio Cofnod Staff Electronig GIG Cymru er mwyn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff gofnodi eu sgiliau Cymraeg).
- Cofnodion cleientiaid a chleifion i gynnwys adrannau a fydd yn galluogi staff i gofnodi'r 'Cynnig Gweithredol' ac i nodi dewis iaith yr unigolyn er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol.

<b>Tystiolaeth/Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau/Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Resourcelink (Systemau AD/Cyflogres) ar hyn o bryd yn cofnodi ac yn adrodd ar sgiliau Gwrando/Siarad, Darllen/Deall ac Ysgrifennu Cymraeg staff.</li> <li>• Gofynnir i staff newydd hunanasesu eu sgiliau gan ddefnyddio'r Fframwaith Gallu yn yr Iaith Gymraeg. Caiff y wybodaeth wedyn ei mewnbynnu i Resourcelink.</li> <li>• Anogir rheolwyr i drafod sgiliau Cymraeg staff yn ystod eu cyfarfodydd gwerthuso blynyddol ac interim.</li> <li>• O dro i dro gofynnir i weithwyr gwblhau arolygon yn gofyn am wybodaeth i ddibenion monitro cydraddoldeb, sydd yn cynnwys gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, cofnodir dewis iaith defnyddwyr gwasanaethau yn RAISE a CHARMS.</li> <li>• Nid oes systemau data ar gael ar hyn o bryd i gydweddu defnyddwyr gwasanaethau sydd eisiau gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg â staff sy'n siarad Cymraeg. Bydd rheolwyr ar hyn o bryd yn cyfeirio achosion at sylw staff penodol yn seiliedig ar y sgiliau priodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'r wybodaeth yn gyflawn fodd bynnag rydym yn gweithio gyda Rheolwyr i gau'r bylchau</li> </ul>

**2.6** Dylai sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a phroffil cymunedol yr iaith Gymraeg gael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac IMTP y GIG i ddangos anghenion y Gymraeg.

<b>Tystiolaeth/Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau/Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ers cyflwyniad y Fframwaith 'Mwy na Geiriau' yn Ebrill 2012, mae'r gofynion iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r cynlluniau busnes cysylltiedig.</li> </ul>	

### **Amcan 3: Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu, Contractio a Chynllunio'r Gweithlu**

3.2 GIG Cymru ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol i sefydlu proffil iaith Gymraeg y gymuned (yn seiliedig ar yr Adroddiad Asesiad Poblogaeth a gynhyrchir yn unol ag adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) a defnyddio'r wybodaeth hon fel llinell sylfaen ar gyfer cynllunio gwasanaethau er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ac asesu pob swydd am anghenion sgiliau Cymraeg cyn hysbysebu.

<b>Tystiolaeth/Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau/Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddir gwybodaeth o'r Cyfrifiad ar hyn o bryd i bennu proffil iaith Gymraeg y gymuned (mae Wrecsam ar hyn o bryd yn adrodd fod 12.9% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg)</li> <li>Bydd yr anghenion a nodir yn yr Adroddiad Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cael sylw wrth ddatblygu'r Cynllun Ardal ac wrth i wasanaethau gael eu datblygu neu eu newid yn y dyfodol.</li> <li>Mae system rheoli swyddi gwag yn ei lle sy'n sicrhau y caiff yr holl swyddi eu hasesu am anghenion iaith Gymraeg cyn hysbysebu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen cryfhau'r broses Rheoli Swyddi Gwag er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion perthnasol i'r iaith Gymraeg.</li> <li>Anawsterau recriwtio i rai rolau e.e. gweithwyr cymdeithasol, staff gofalu</li> </ul>

3.3 Systemau cynllunio a chomisiynu GIG Cymru ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol, e.e. cynlluniau gwasanaethau a gyhoeddir, i ystyried proffil iaith Gymraeg y Gymuned (yn seiliedig ar yr Adroddiad Asesiad Poblogaeth a gynhyrchir yn unol ag adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) gan sicrhau yr adlewyrchir hyn wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau.

<b>Tystiolaeth/Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau/Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gofal Cymdeithasol Oedolion wedi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Costau gwasanaethau cyfieithu</li> </ul>

<p>cynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Sefyllfa'r Farchnad. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth allweddol i sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau a chefnogaeth ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan gynnwys gofynion perthnasol i'r Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Strategaeth Comisiynu drafft yn cyfeirio at yr angen i wasanaethau gofalu a chefnogi sicrhau fod rhoi ystyriaeth i ddarpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o gynllunio a darparu gwasanaethau.</li> <li>• Bydd anghenion siaradwyr Cymraeg fel y'u hamlygwyd yn yr Adroddiad Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cael sylw wrth ddatblygu'r Cynllun Ardal ac mewn unrhyw wasanaethau a fydd yn cael eu datblygu neu eu newid mewn ymateb i'r cynllun.</li> <li>• Bydd y fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu adrannol yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau er mwyn sicrhau fod yr angen am ddarpariaeth iaith Gymraeg yn cael ei amlygu a'i ddiwallu.</li> </ul>	<p>ar gyfer gwasanaethau darparwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anawsterau recriwtio i rolau penodol, e.e. staff gofal</li> <li>• Mae gallu gwasanaeth gofal mewn ardaloedd gwledig yn arbennig yn golygu llai o ddewisiadau mewn darpariaethau / iaith gwasanaeth (hynny yw, llai o gartrefi gofal yn yr ardaloedd hynny, anhawster recriwtio gweithwyr gofal cartref yn gyffredinol)</li> </ul>
--	---

3.4 Anghenion iaith Gymraeg unigolion i gael eu diwallu wrth gomisiynu neu contractio gwasanaethau gan y sector annibynnol neu'r trydydd sector (e.e. gofal preswyl neu nyrsio, eiriolaeth, gofal yn y cartref, gwasanaethau allan o oriau, gwasanaethau Meddyg Teulu. Darpariaeth gwasanaethau iaith Gymraeg i'w gynnwys ym manylebau contractau, cytundebau lefel gwasanaeth a phrosesau nawdd grant.

<b>Tystiolaeth/Cynnydd</b>	<b>Rhwysterau/Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhwysir gofynion iaith Gymraeg mewn contractau.</li> <li>• Gofynnir i ddarparwyr gyflwyno gwybodaeth o leiaf bob blwyddyn am eu cydymffurdedd â'r gofynion iaith Gymraeg, gan gynnwys niferoedd siaradwyr Cymraeg, ac mae cwestiynau am iaith yn rhan o'r ymweliadau monitro.</li> <li>• Mae cyfrifiad Gofal Cymdeithasol y Sector Cyhoeddus yn cofnodi ac yn rhoi gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg staff yn y sectorau preswyl a gofal cartref annibynnol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cost gwasanaethau cyfieithu.</li> <li>• Anawsterau recriwtio i rai rolau e.e. staff gofalu</li> <li>• Costau gwasanaethau cyfieithu ar gyfer gwasanaethau darparu a newidiadau i ddogfennau</li> <li>• Anawsterau recriwtio i rolau penodol, e.e. staff gofal</li> <li>• Mae gallu gwasanaeth gofal mewn ardaloedd gwledig yn arbennig yn golygu llai o ddewisiadau mewn darpariaethau / iaith gwasanaeth (hynny yw, llai o gartrefi gofal yn yr ardaloedd</li> </ul>

<p>Caiff y wybodaeth hon ei choladu a'i hanfon at Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wrth hysbysebu cyfleodd ar gyfer grantiau bychan, cynhyrchir yr holl wybodaeth a gohebiaeth yn ddwyieithog. Bydd gwybodaeth cyhoeddusrwydd yn cael ei diweddarau er mwyn annog ceisiadau gan grwpiau sy'n dymuno cynnal eu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>• Rydym yn bwriadu datblygu manyleb y contract presennol a'r trefniadau monitro ymhellach, yn arbennig o safbwynt hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant mewn gwasanaethau a gomisiynir gennym ni.</li> </ul>	<p>hynny, anhawster recriwtio gweithwyr gofal cartref yn gyffredinol)</p>
---	---

3.7 Penaethiaid Gwasanaethau i ddatblygu cynlluniau i wneud y mwyaf o'u gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg gyda'u gweithwyr Cymraeg presennol. Bydd y capasiti angenrheidiol yn cael ei bennu yng ngoleuni'r Adroddiad Asesiad Poblogaeth a gynhyrchir o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ble daw bylchau yng ngallu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r amlwg, dylai'r rhain gael eu hadlewyrchu yn Strategaeth Siliau Dwyieithrwydd y sefydliad.

<b>Tystiolaeth/Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau/Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Iaith Gymraeg presennol gofynnir i reolwr ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r adnoddau sydd ar gael e.e. rhannu adnoddau.</li> <li>• Cynigiwyd sesiynau ar 'Mwy na Geiriau - Strategaeth Ddilynol'. Sesiynau hanner diwrnod oedd y rhain yn cael eu darparu gan iaith gan ganolbwyntio ar y 'Cynnig Gweithredol' a datblygu strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg. Cynigiwyd y sesiynau hyn i staff y Cyngor a'r Sector Annibynnol.</li> <li>• Lansiodd y Cyngor y cwrs 10 awr 'Cymraeg Gwaith' ar-lein</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Staff ddim yn dweud beth yw eu sgiliau Cymraeg, neu'n dweud fod lefel eu sgiliau'n is nag ydyw mewn gwirionedd.</li> <li>• Diffyg hyder ar ran staff i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle</li> <li>• Cost hyfforddiant</li> </ul>

<p>Llywodraeth Cymru. Nod y cwrs oedd galluogi staff i gyfarfod â chydweithwyr, cwsmeriaid a rhandaliad gan ddefnyddio ymadroddion Cymraeg ac ymateb i ymholiadau cychwynnol yn y Gymraeg a throsglwyddo galwadau i siaradwyr Cymraeg eraill.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg drwy Goleg Cambria. Cynigir ystod o gyrsiau o Ddechreuwr i lefelau uwch.</li> <li>• Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig sesiwn ymarfer anffurfiol trwy Goleg Cambria.</li> <li>• Cynhaliodd y Cyngor (ar y cyd ag Iaith) Cwrs Dwys Cymraeg ar Waith dros gyfnod o 3 mis - anelwyd y cwrs at y rheini lle'r oedd angen iddynt ddysgu Cymraeg mewn cyfnod byr.</li> <li>• Mae'r Gymraeg yn eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd rheolwyr, lle bydd problemau capasiti'n cael eu trafod.</li> <li>• Mae gan Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant restr o siaradwyr Cymraeg dynodedig y gellir galw arnynt i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.</li> <li>• Mae Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Corfforaethol wedi'i ddatblygu a'i lansio. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys mentrau i gynyddu capasiti ar draws y sefydliad.</li> </ul>	
---	--

#### **Amcan 4: Hyrwyddo ac Ymgysylltu**

**4.3** Bydd y defnydd o 'Cymraeg yn y Gweithle' yn cael ei hyrwyddo ymysg staff gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol er mwyn galluogi pobl i adnabod siaradwyr Cymraeg.

Tystiolaeth/Cynnydd	Rhwystrau/Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddir rheffynnau arbennig i bob siaradwr Cymraeg er mwyn i bobl eraill weld heb ofyn eu bod nhw'n siarad yr iaith ac anogir staff hefyd i wahodd gohebiaeth Gymraeg (drwy eu llofnod e-bost)</li> <li>• Mae arwyddion wedi cael eu gosod mewn prif dderbynfeydd i ddatgan fod croeso i bobl gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.</li> </ul>	

**4.6** Rhyngwynebau a meddalwedd Cymraeg (e.e. Cysgliad) i fod ar gael i staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i'w galluogi a'u cynorthwyo nhw i weithio'n ddwyieithog. Dylid ystyried addasu'r systemau presennol er mwyn cyflawni hyn.

Tystiolaeth/Cynnydd	Rhwystrau/Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae meddalwedd gwirio gramadeg a sillafu ar gael i bob siaradwr Cymraeg (rhugl a dysgwyr)</li> <li>• Y gofynion iaith Gymraeg ar gyfer y WCCIS newydd yw bod yn rhaid: <ul style="list-style-type: none"> <li>- i'r system gydymffurfio â deddfwriaeth</li> <li>- i ryngwyneb defnyddiwr y system ganiatáu dewis iaith</li> <li>- i'r system allu cofnodi yn Gymraeg neu Saesneg</li> <li>- i'r system gefnogi dogfennaeth a gynhyrchir gan y system yn Gymraeg/Saesneg</li> </ul> </li> </ul>	System WCCIS newydd i gael ei rhoi ar waith ym mis Medi 2018



## **ATODIAD 2**

### **Monitro Sgiliau Cymraeg y Gweithwyr**

#### ***Cyflwyniad***

Mae gennym dri chategori y cesglir data ar eu cyfer fel rhan o'n gwaith monitro cydraddoldeb sgiliau Cymraeg:

- 1) Gwrando/Siarad
- 2) Darllen/Deall
- 3) Ysgrifennu

Ym mhob un o'r categorïau hyn, gofynnir i weithwyr asesu/cofnodi eu lefel hyfedredd Cymraeg eu hunain ar sail y meini prawf canlynol:

Lefel 0 - Ddim o gwbl/Mynediad

Lefel 1 – Ychydig/Sylfaen

Lefel 2 – Canolradd/Rhywfaint

Lefel 3 – Uwch/Cymedrol

Lefel 4 – Hyfedredd Llawn

Lefel 5 - Hyfedredd Llawn (Technegol)

Darperir y wybodaeth hon gan weithwyr yn ystod y cam recriwtio, pan fydd gweithiwr yn diweddarau ei gofnod personol neu (i ran adrannau) yn ystod adolygiad o ddatblygiad personol y gweithwyr.

Mae'r data hwn yn seiliedig ar weithwyr y cyngor (ac eithrio gweithwyr addysg yn yr ysgol) ar **31/03/2018**.

## Gweithwyr gyda Sgiliau Cymraeg yn ôl Adran

		<b>GWEITHWYR GYDA SGILIAU CYMRAEG MEWN 1 CATEGORI NEU'N FWY</b>			
<b>Adran</b>	<b>Nifer y Gweithwyr</b>	<b>Lefel 1 +</b>	<b>%</b>	<b>Lefel 3 +</b>	<b>%</b>
Gofal Cymdeithasol i Oedolion	464	120	25.86%	27	5.82%
Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr Strategol	8	1	12.50%	0	0.00%
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid	193	58	30.05%	12	6.22%
Addysg	373	67	17.96%	21	5.63%
Yr Amgylchedd a Chynllunio	520	42	8.08%	12	2.31%
Cyllid	160	59	36.88%	10	6.25%
Tai a'r Economi	828	118	14.25%	38	4.59%
Gofal Cymdeithasol Plant	254	69	27.17%	12	4.72%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,800</b>	<b>534</b>	<b>19.07%</b>	<b>132</b>	<b>4.71%</b>

Sylwch fod hyn yn eithrio gweithwyr addysg yn yr ysgol ac mae adran y Prif Weithredwr yn cynnwys gweithwyr cymorth yn yr adran hon.

## Gweithwyr gyda Sgiliau Cymraeg yn ôl Gradd



**GWEITHWYR GYDA SGILIAU  
CYMRAEG MEWN 1 CATEGORI  
NEU'N FWY**

<b>Gradd</b>	<b>Nifer y Gweithwyr</b>	<b>Lefel 1 +</b>	<b>%</b>	<b>Lefel 3 +</b>	<b>%</b>
L02 - L06	1,494	240	16.06%	44	2.95%
L07 - L10	861	214	24.85%	54	6.27%
L11 - L15	150	54	36.00%	26	17.33%
Soulbury, Ieuenctid ac Athrawon a gyflogir yn ganolog	159	19	11.95%	6	3.77%
Gweithwyr Crefft	127	3	2.36%	2	1.57%
Prif Swyddogion / Cyfarwyddwyr	9	4	44.44%	0	0.00%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,800</b>	<b>534</b>	<b>19.07%</b>	<b>132</b>	<b>4.71%</b>

Sylwch fod hyn yn eithrio gweithwyr addysg yn yr ysgol ac mae Penaeithiaid Adran wedi'u cynnwys yng ngradd y Prif Swyddogion.